# Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

## Diddymu'r Ddarpariaeth 'Asesiad Pellach' yn Neddf yr Amgylchedd 1995

### Crynodeb

Rydym yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiddymu'r Ddarpariaeth 'Asesiad Pellach' yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw weithfa ddiwydiannol a reoleiddir gennym yn cyfrannu'n sylweddol at dramgwyddo terfynau ansawdd aer yr UE, a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol gan chwarae ein rhan lawn yn y gwaith o Reoli Ansawdd Aer Lleol. Rydym wedi cyfrannu'n sylweddol, er enghraifft, at baratoi Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer awdurdodau lleol drwy ddarparu data ac arweiniad.

Ar ôl dynodi Ardal Reoli Ansawdd Aer (AQMA), y defnydd mwyaf effeithiol y gallai awdurdod lleol ei wneud o'i adnoddau fyddai datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru felly'n cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i ddiddymu Darpariaeth 'Asesiad Pellach' yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

### Sylwadau Cyffredinol

Rydym yn rheoleiddio allyriadau o gyfleusterau diwydiannol dan ddeddfwriaeth yr UE, ac felly, mae gennym rôl yn y gwaith o sicrhau bod y DU yn cydymffurfio ag ymrwymiadau'r UE ar Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig (sydd i'w disodli gan y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn 2013), Cyfarwyddebau Ansawdd Aer a'r Gyfarwyddeb ar Derfyn Uchaf Allyriadau Cenedlaethol. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd i gefnogi'r gwaith o wella ansawdd aer lleol, yn cynnwys darparu gwybodaeth am brosesau rheoleiddio i'w galluogi i gynnal eu hadolygiadau a'u hasesiadau ansawdd aer.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol i wella ansawdd aer, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (ac Asiantaeth yr Amgylchedd o'r blaen) yn darparu cyngor, canllawiau a data ar ansawdd aer (yn cynnwys darparu mynediad i gyfarpar monitro symudol er mwyn ehangu'r rhwydwaith presennol o fonitorau yn yr ardal.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gasglu a dadansoddi gwybodaeth fanwl er mwyn dynodi AQMA, ac yna i baratoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer. Felly, gallai'r gofyniad ychwanegol i baratoi Asesiad Pellach greu cam diangen nad yw'n cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Ar ôl dynodi AQMA, y defnydd mwyaf effeithiol y gallai awdurdod lleol ei wneud o'i adnoddau fyddai datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer. Oherwydd hynny, rydym yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r Ddarpariaeth 'Asesiad Pellach' yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

### Gwybodaeth Bellach

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gallwch gael gwybodaeth bellach neu gefndir i'r ymateb hwn gan Dr Richard Griffiths, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP, rhif ffôn 029 2046 6138, richard.griffiths@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mehefin, 2013